

## GWYBODAETH I UNIGOLION

### A ENWEBWYD I FOD GYDA

### TYST YN YSTOD CYFWELIAD

Gall y Gangen Ymchwilio Damweiniau Morol (MAIB) ymchwilio i unrhyw ddamwain forol sy'n digwydd o fewn dyfroedd tiriogaethol y Deyrnas Unedig, neu i longau'r Deyrnas Unedig unrhyw le yn y byd.

Pryd bynnag y bydd damwain forol yn digwydd, gellir cael yr argraff fod nifer o gyrff swyddogol yn dod ynghyd ar yr un pryd yn y fan a'r lle i geisio sefydlu beth ddigwyddodd. Bydd yr heddlu, swyddogion y llywodraeth, cyfreithwyr, aseswyr yswiriant a syrfewyr morol oll yn gofyn cwestiynau tebyg, er o safbwyntiau gwahanol. Yn aml bydd hyn yn peri dryswch i dystion.

Mae'r daflen hon yn amlinellu'r goblygiadau a hawliau sydd gan unigolion a enwebwyd i fod gyda thyst yn ystod ac wedi cyfweliad gydag arolygwyr MAIB.

### Cangen Ymchwilio Damweiniau Morol

Mae'r MAIB wedi ei lleoli yn Southampton ac yn rhan annibynnol o'r Adran Drafnidiaeth. Mae'r MAIB yn ymchwilio i bob math o ddamweiniau morol, i longau ac i bobl ar fwrdd y llongau. Unig nod unrhyw ymchwiliad gan yr MAIB yw pennu achosion ac amgylchiadau damwain i sicrhau na fydd yn digwydd eto.

Nid yw'r MAIB yn pennu bai nac atebolrwydd, ac **nid** yw'n awdurdod rheoleiddio nac erlyn.

### Diogelu Data

Mae'r MAIB yn cyflawni ei waith o dan ddarpariaethau Rheoliadau Llongau Masnachol (Adrodd ac Ymchwilio i Ddamweiniau) 2012. Mae'r Rheoliadau hyn, ac Adrannau 259, 260 a 267 o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 y gwnaed y Rheoliadau oddi tanynt, yn caniatáu i'r MAIB gael unrhyw wybodaeth sy'n angenrheidiol i gynnal ei hymchwiliad.

Mae pŵer y MAIB i brosesu data personol yn cydymffurfio â darpariaethau Erthygl 6 1. (e) o'r Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) lle mae "prosesu yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg a gyflawnir er budd y cyhoedd neu wrth ymarfer awdurdod swyddogol wedi'i freinio yn y rheolwr". Esbonnir hyn yn fanylach yn Adran 8 Deddf Diogelu Data 2018.

Mae'r MAIB yn defnyddio'r wybodaeth bersonol a ddisgrifir uchod at ddibenion cynnal ei ymchwiliadau yn effeithlon. Diogelir y wybodaeth hon rhag cael ei rhyddhau gan adran 259 (12) o Ddeddf Llongau Masnachol 1995 a darpariaethau Rheoliadau Llongau Masnachol (Adrodd ac Ymchwilio i Ddamweiniau) 2012 Rheoliad 13.

#### I ddarllen mwy ar sut mae GDPR yn effeithio ar y ffordd rydyn ni'n defnyddio ac yn storio'ch data, ewch i:

<https://www.gov.uk/government/organisations/marine-accident-investigation-branch/about/personal-information-charter>

### Cymorth a Chyngor

Am ragor o wybodaeth ynglŷn â'r MAIB neu am wybodaeth ar ddamweiniau penodol, cysylltwch â'r MAIB ar y cyfeiriad isod:

#### Marine Accident Investigation Branch

First Floor, Spring Place  
105 Commercial Road  
Southampton  
SO15 1GH  
United Kingdom

Ffôn: +44 (0)23 8039 5500  
E-bost: [iso@maib.gov.uk](mailto:iso@maib.gov.uk)  
Gwefan: [www.gov.uk/maib](http://www.gov.uk/maib)

Yn ogystal â'r recordiad sain/fideo, efallai y bydd arolygydd yn gofyn i dyst lofnodi datganiad ysgrifenedig sy'n crynhoi'r wybodaeth a roddir yn ystod y cyfweliad. Gall y datganiad gynnwys disgrifiad o gymwysterau a chefnidir y tyst, a'u hatgofion a barn bersonol o'r ddamwain sy'n cael ei hasesu neu ymchwilio. Wedi cymryd y datganiad, bydd y tyst yn cael dewis o naill ai ei ddarllen neu gael arolygydd yn ei ddarllen iddynt cyn iddynt ei lofnodi.

Fel gyda recordiadau o gyfweliadau, mae datganiadau wedi eu diogelu rhag eu rhyddhau. Ni fydd yr MAIB yn datgelu fod y tyst wedi gwneud datganiad, ac ni fydd datganiadau yn cael eu rhyddhau tu allan i'r MAIB oni bai y bydd lly yn gorchymyn hynny. Bydd y tyst, neu os byddant yn dewis hynny, eu cynrychiolydd cyfreithiol, yn derbyn copi o'r datganiad i'w gadw. Gall y tyst basio copi o'u datganiad ymlaen i drydydd parti yn ôl eu dymuniad, ond ni all yr MAIB wneud hyn ar eu rhan. Nid yw bod yn bresennol yn ystod cyfweliad fel enwebai'r tyst yn rhoi'r hawl i chi i gopi o'r ddogfen hon.

Fel unigolyn enwebedig y tyst, gallwch gymryd nodiadau ar ran y tyst yn ystod y cyfweliad. Fodd bynnag, mae'r holl wybodaeth a ddatgelir gan dyst yn ystod cyfweliad i ddiben ymchwiliad diogelwch yr MAIB yn unig, mae'n cael ei thrin yn gwbl gyfrinachol, ac **ni ellir ei datgelu** i unrhyw drydydd partio gan enwebai heb gydsyniad y tyst.

Mae'r MAIB yn cyflawni ei diben trwy asesu damweiniau a digwyddiadau, ymchwilio i'r rhai sydd ag oblygiadau ehangach i ddiogelwch ar y môr, ac yn cyhoeddi adroddiadau o'i hymchwiliadau. Gallai asesiadau ac ymchwiliadau arwain at wneud argymhellion diogelwch gan yr MAIB i bobl neu sefydliadau perthnasol. Yn y gorffennol, mae'r rhain wedi cynnwys Asiantaeth y Môr a Gwylwyr y Glannau (MCA), y cymdeithasau dosbarthu, perchnogion/gweithredwyr, awdurdodau harbwr ac eraill.

Mae'r MAIB yn cyflawni cyfweiliadau er mwyn cael gwell dealltwriaeth o beth ddigwyddodd, sut y digwyddodd, a pham y digwyddodd, yn rhan o'i hymchwiliad i ddamwain. Gall hyn olygu cyfweild â phobl gyda chysylltiadau anuniongyrchol yn unig i ddamwain, yn ogystal â'r rhai oedd ynghlwm neu'r rhai a welodd beth ddigwyddodd. Fodd bynnag, er mwyn symlrwydd, gelwir pawb a gyfwelir yn 'dystion'.

Cyflawnir pob un o gyfweiliadau'r MAIB yn defnyddio'r grymoedd a ddarparwyd yn y Ddeddf Llongau Masnach 1995, s.259 a deddfwriaeth israddol. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn rhoi grymoedd i arolygwyr ofyn i unigolyn fynychu cyfweiliad, ac yn gofyn i'r sawl sy'n cael ei gyfweild ateb cwestiynau'r arolygwyr yn onest. Byddai gwrthod gwneud hynny yn drosedd dan y Ddeddf Llongau Masnach.

Er mwyn diogelu tystion yr MAIB:

- ▶ Ni ellir defnyddio unrhyw wybodaeth eirwir a ddarparwyd i'r MAIB yn ystod cyfweiliad i argyhuddo'r tyst (na'i gymar ef neu hi) mewn llys<sup>1</sup> barn;
- ▶ Cedwir unrhyw wybodaeth a geir yn ystod cyfweiliad yn gwbl gyfrinachol o fewn yr MAIB a dim ond os bydd llys yn gorchymyn hynny y gellir ei rhyddhau; ac
- ▶ Mae'n ofynnol i'r MAIB beidio datgelu enwau'r tystion a gyfwelwyd.

<sup>1</sup> Golyga 'Llys' yr Uchel Lys yng Nghymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a'r Llys Sesiwn yn yr Alban.

## Ystyriaethau Cyn Cytuno i Fod Gyda Thyst Yn Ystod Cyfweiliad

Mae'r cyfweiliad rhwng y tyst a'r arolygydd yn unig. Fodd bynnag, gall y tyst enwebu rhywun arall i fod yn bresennol i'w cefnogi yn ystod y cyfweiliad. Gall yr unigolyn hwn fod yn rhywun sy'n hysbys i'r tyst, ar yr amod nad yw'n dyst ei hun.

Fel yr unigolyn a enwebwyd, gallwch gynghori'r tyst ar unrhyw adeg, a chymryd nodiadau ar eu rhan os dymunant. Ni ddylech atal y tyst rhag rhoi, na'u cynghori i beidio rhoi, ateb uniongyrchol i unrhyw gwestiwn a gyflwynir gan yr arolygwyr, ac ni allwch gynrychioli buddiannau trydydd parti yn ystod y cyfweiliad.

Gall buddiannau perchennog/gweithredwr neu yswiriwr y llong fod yn wahanol iawn i rai'r tyst. Os ydych chi'n cytuno i weithredu fel unigolyn enwebedig ar gyfer tyst, mae'n allweddol eich bod yn esbonio i'r tyst a ydych yn cynrychioli buddiannau unrhyw bartion eraill. Os bydd unrhyw wrthdaro buddiannau amlwg, dylech wrthod gweithredu fel unigolyn enwebedig y tyst. Os bydd unrhyw wrthdaro buddiannau yn dod i'r amlwg yn ystod y cyfweiliad, dylech atal y cyfweiliad a dod a hyn i sylw'r arolygydd. Yna fel arfer byddai'n briodol i wneud trefniadau eraill i gael rhywun i fod gyda'r tyst.

Dylai cynrychiolwyr y cwmni neu ei yswiriwr sydd wedi bod yn bresennol yn ystod cyfweiliad tyst MAIB fod yn ymwybodol hefyd y gallai gwrthdaro buddiannau ddod i'r amlwg yn ystod camau hwyrach yr ymchwiliad. Pan nodir gwrthdaro o'r fath, dylid ei ddatgan i'r arolygydd arweiniol ac, os oes angen, cymryd camau gweithredu priodol i amddiffyn tystiolaeth y tyst.

Yn aml, bydd tystion yn cael eu holi ar eu profiadau o weithio i gwmni, a bydd gofyn iddynt ateb yn ddiwyll. Os ydych chi'n teimlo fod eich presenoldeb yn debygol o lesteirio'r tyst mewn unrhyw fodd, rhaid i chi wrthod bod yn bresennol yn ystod y cyfweiliad.

## Atal o Gyfweiliad

Anogir tystion i ystyried eu buddiannau eu hunain yn ofalus wrth enwebu rhywun arall i fod yn bresennol yn ystod y cyfweiliad. I'r perwyl hwn, gall tystion ofyn i'r arolygwyr eithrio neu esgusodi unrhyw un yn ôl eu dymuniad o'r cyfweiliad, neu unrhyw ran ohono, ac fe'u hanogir i wneud hyn. Nid oes rhaid iddynt roi unrhyw reswm dros y cais hwn, ac ni ellir gwneud unrhyw gasgliadau ohono.

Mae gan yr arolygydd, gyda chytundeb y Prif Arolygydd, y grym i eithrio cynrychiolydd enwebedig o gyfweiliad os oes rheswm da dros gredu fod presenoldeb yr unigolyn yn llesteirio cynnydd ymchwiliad. Yn y sefyllfa hon, bydd gan y tyst yr opsiwn i enwebu cynrychiolydd gwahanol, a bydd yr un rheolau yn berthnasol iddynt. Ni fydd arolygydd yn eithrio cynghorydd cyfreithiol proffesiynol sy'n gweithredu ar ran y tyst un unig. Fodd bynnag, bydd yr MAIB yn adrodd ar unrhyw gamymddwyn proffesiynol gan enwebai i'w corff goruchwylio perthnasol, ble mae ymddygiad o'r fath yn tansilio neu'n niweidio ymchwiliad.

## Cofnodion o Gyfweiliadau a Datganiadau

Wrth gyfweild o fewn unrhyw awdurdodaeth yn y Deyrnas Unedig, bydd arolygwyr yr MAIB yn recordio cyfweiliadau yn electronig. Mae'n bolisi gan yr MAIB mai dyma'r unig recordiadau sain/fideo a ganiateir er mwyn diogelu cywirdeb yr ymchwiliad. Tu allan i awdurdodaeth y Deyrnas Unedig, bydd arolygwyr MAIB yn gofyn am gydsyniad y tyst i recordio'r cyfweiliad.

Mae pob recordiad o gyfweiliadau wedi eu diogelu dan gyfraith y Deyrnas Unedig, ac ni fyddant yn cael eu rhyddhau tu allan i'r MAIB i unrhyw un, oni bai y gorchymynnir hynny gan lys yn y Deyrnas Unedig. Ni ddarperir copïau i dystion, ond gall tyst ofyn am gyfle i adolygu'r recordiad o'u cyfweiliad pan fyddant yn derbyn copi ymgynghori o adroddiad yr ymchwiliad; fel arfer oddeutu 4 mis wedi cychwyn yr ymchwiliad.